

Polisi a Datganiad Preifatrwydd Staff



2018 - 2020

Cynnwys

Cwmpas a Chyd-destun y Polisi	3
Cyfrifoldebau Cytundebol	3
Cyfrifoldebau statudol	4
Cyfrifoldebau rheoli	4
Data personol sensitif	4
Datgelu data personol i gyrff eraill	5
Cadw data personol yn gyfredol	5
Cais am wybodaeth.....	6
Cyfyngu Mynediad i Ddata Personél	6
Cadw	7
Yr Hawl i Wrthwynebu	7

Cwmpas a Chyd-destun y Polisi

Er mwyn cydymffurfio â'i ymrwymadau a'i gyfrifoldebau cytundebol, statudol a rheoli, rhaid i'r Cyngor brosesu data personol yn ymwneud â'i staff, gan gynnwys data personol 'sensitif', fel diffinnir yn Neddf Diogelu Data 1998 ("y Ddeddf") sy'n cynnwys gwybodaeth yn ymwneud ag iechyd, tarddiad hiliol neu ethnig, tueddfryd rhywiol, a cholffarnau troseddol. Prosesir yr holl gyfryw ddata'n unol â darpariaethau'r Ddeddf a Pholisi'r Cyngor ar Ddiogelu'r Data fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.

Byddwn yn gweithio'n agos gydag unigolion a thrydydd partïon eraill i sicrhau bod deddfwriaeth a pholisi sy'n delio â diogelu data yng nghyd-destun adnoddau dynol yn sicrhau cydbwysedd ymarferol rhwng buddiannau cyfreithiol y Cyngor fel y cyflogwr, a'n darpar staff, ein staff presennol a chyn aelodau o staff.

Mae gennym systemau wedi'u sefydlu i ddiogelu data personol yn ymwneud â chyflogaeth unigolyn. Mae ein codau ymddygiad/polisiâu'n diogelu data staff gan ganiatáu i ni ddefnyddio prosesau a gynlluniwyd i wneud ein busnes yn fwy effeithiol ac effeithlon wrth reoli a chefnogi ein gweithlu. Wrth ddiogelu data personol ein gweithlu ni fyddwn yn caniatáu i ddata unigolion gael ei gamddefnyddio a byddwn yn diogelu ein buddiannau cyfreithiol fel cyflogwr, a buddiannau a rhyddid hanfodol ein gweithlu.

Bydd yr holl ddata personol yn ymwneud â staff y Cyngor Sir:

- wedi'i gael mewn ffordd gyfreithlon a theg, a lle y bo'n briodol, gyda gwybodaeth neu gydsyniad yr aelod o staff dan sylw;
- wedi'i brosesu o fewn telerau caeth y gyfraith, yn cynnwys ond heb ei gyfyngu i Ddeddf Diogelu Data 1998, ac unrhyw reolau, rheoliadau, darpariaethau statudol, estyniadau neu ailddeddfu perthnasol wedi hynny a lle y bo'n bosibl, yn unol ag unrhyw ganllawiau presennol a chyhoeddiadau eraill y Comisiynydd Gwybodaeth;
- yn berthnasol i'r dibenion y mae i gael ei ddefnyddio;
- yn gywir, cyflawn a chyfredol;
- yn cael ei gadw am ddim mwy nag sydd ei angen ar gyfer y diben a nodwyd;
- yn cael ei gadw gyda gwybodaeth lawn yr aelod unigol o staff (ac eithrio mewn achosion sydd wedi'u heithrio'n benodol o dan Ddeddf Diogelu Data 1998);
- wedi'i ddiogelu gan fesurau diogelu rhesymol yn erbyn risgiau megis colled neu fynediad anawdurdodedig, dinistrio, defnyddio, addasu neu ddatgelu data;

Cyfrifoldebau Cytundebol

Mae cyfrifoldebau cytundebol y Cyngor yn cynnwys y rhai sy'n deillio o'r cytundeb cyflogaeth. Mae'r data a broseswyd i gyflawni cyfrifoldebau cytundebol yn cynnwys, ond heb ei gyfyngu i, ddata'n ymwneud â; chyflogres; cyfrif banc; cyfeiriad post; tâl salwch; tâl mamolaeth; gwyliau; pensiwn; a manylion cyswllt mewn argyfwng.

Cyfrifoldebau statudol

Cyfrifoldebau statudol y Cyngor yw'r rhai a orfodir ar y Cyngor gan ddeddfwriaeth. Mae'r data a broseswyd i gyflawni cyfrifoldebau statudol yn cynnwys ond heb ei gyfyngu i,

ddata'n ymwneud â: threth incwm; yswiriant gwladol; tâl salwch statudol; tâl mamolaeth statudol; gwyliau teulu; trwyddedau gwaith; a monitro cyfleoedd cyfartal.

Cyfrifoldebau rheoli

Cyfrifoldebau rheoli'r Cyngor yw'r rhai sydd eu hangen i'r Cyngor i gyflawni ei swyddogaethau fel sefydliad. Mae'r data a broseswyd i gyflawni cyfrifoldebau statudol yn cynnwys ond heb ei gyfyngu i, ddata'n ymwneud â; recriwtio a chyflogi; hyfforddi a datblygu; addysgu; ymchwil; absenoldeb; materion disgyblu; iechyd a diogelwch; diogelwch, yn cynnwys Teledu Cylch Cyfyng a weithredir gan y Cyngor; cyfeiriad e-bost a rhif ffôn; cardiau adnabod; a cholffarnau troseddol.

Data Personol Sensitif

Mae'r ddeddf yn diffinio 'data personol sensitif' fel gwybodaeth am darddiad hiliol neu ethnig; barn wleidyddol; credoau crefyddol neu gredoau tebyg eraill; aelodaeth o undeb llafur; iechyd corfforol neu feddyliol; bywyd rhywiol; a honiadau, achosion neu gollfarnau troseddol. Mewn rhai amgylchiadau cyfyngedig., mae'r Ddeddf yn caniatáu i'r Cyngor gasglu a phrosesu data personol sensitif heb fod angen cydsyniad penodol yr aelod o staff.

Mae'r categorïau gwybodaeth canlynol yn amodol ar gyfyngiad statudol ac fe'u cedwir yn unig ar ffeil i ddibenion cyfreithlon penodol.

(a) *Tarddiad hiliol neu ethnig*

Fe'i cofnodir ar ffeiliau personél, gyda chaniatâd penodol pob aelod o staff dan sylw, ar gyfer dibenion ystadegol yn unig mewn cysylltiad â "monitro ethnig" – h.y. i nodi ac adolygu bodolaeth neu ddiffyg bodolaeth cyfle cyfartal neu driniaeth rhwng pobl o wahanol darddiad hiliol neu ethnig, er mwyn gallu hybu neu gynnal cydraddoldeb o'r fath.

(b) *Credoau crefyddol neu athronyddol*

Fe'u cofnodir ar ffeil, gyda chaniatâd penodol pob aelod o staff.

(c) *Aelodaeth o Undeb Llafur*

Fe'i cofnodir ar ffeil, gyda chaniatâd penodol pob aelod o staff, er mwyn casglu tanysgrifiadau undeb gan y Cyngor Sir neu staff ar gyflogres cwmni cysylltiedig.

(d) *Prosesu data'n ymwneud â rhyw, tueddfryd rhywiol ac ailbennu rhywedd*

Fe'i cofnodir ar ffeil, gyda chaniatâd penodol yr aelod o staff neu yn achos rhyw os oes angen ei gadw i fodloni rheoliadau neu ddyletswyddau cyflogaeth penodol.

(e) *Prosesu data'n ymwneud ag iechyd*

Dim ond data'n ymwneud ag:

- (i) iechyd galwedigaethol;
- (ii) cofnodion absenoldeb salwch;

- (iii) salwch cronig aelod penodol o staff mewn amgylchiadau a allai effeithio ar ei (g)allu i gyflawni pob agwedd o'r gwaith arferol; a
- (iv) data i gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb (2010)

Cesglir data'n ymwneud â iii) a iv) uchod a'i gadw'n unig gyda chaniatâd penodol y staff dan sylw.

Rydym yn cydnabod hawliau staff o dan Ddeddf Adsefydlu Troseddwyd 1974 ac unrhyw un o Orchmynion cysylltiedig yr Ysgrifennydd Gwladol, rheolau, rheoliadau, neu ddarpariaethau statudol eraill a bydd yn cadw unrhyw gofnodion o euogfarnau (Archwiliadau Data y Gwasanaeth Gwahardd) ar ffeil am y cyfnodau hynny'n unig a ganiateir o dan y Ddeddf. Bydd hyn yn unol â'n hawliad o dan Atodlen 3(2),(1) o Ddeddf Diogelu Data 1998.

O dan Adran 8 o Ddeddf Loches a Mewnfudo 1996 mae hawl gennym i ofyn, a chadw copïau o, ddogfennau a nodir yn y Ddeddf ar gyfer pob aelod newydd o staff, a darpar aelodau sy'n cael eu cyflogi (neu'n gwneud cais i gael eu cyflogi) ar ôl 31 Ionawr 1997. Gwneir hyn heb ragfarnu hawliau staff (a darpar staff) o dan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol 1976.

Rydym yn cadw'r hawl i wneud copïau 'wrth gefn' o ffeiliau data a chadw copïau lluosog o ddata personol yn ymwneud â staff penodol er mwyn diogelu ein buddiannau pe collid data.

Datgelu data personol i gyrff eraill

Er mwyn cyflawni'r contract cyflogaeth, rhaid i'r Cyngor drosglwyddo data personol staff i drydydd partïon, er enghraifft, i ddarparwyr pensiwn a Chyllid a Thollau ei Mawrhydi.

Er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol, rhaid i'r Cyngor ddarparu peth o ddata personol staff i adrannau neu asiantaethau'r llywodraeth e.e. darparu data treth a chyflog i Gyllid a Thollau ei Mawrhydi.

Cadw data personol yn gyfredol

Yn ôl y Ddeddf rhaid i'r Cyngor gymryd camau rhesymol i sicrhau bod unrhyw ddata personol y mae'n ei brosesu'n gywir a chyfredol. Cyfrifoldeb yr aelod unigol o staff yw hysbysu'r Cyngor ynghylch unrhyw newidiadau i'r data personol y maent wedi'i roi iddo yn ystod eu cyflogaeth.

Cais am wybodaeth

O dan y Ddeddf, mae'n bosibl i unigolyn ofyn am gael mynediad i unrhyw ran o'u data personol a gedwir gan y Cyngor, yn amodol ar rai cyfyngiadau. Yr enw ar gais ar gyfer datgelu gwybodaeth o'r fath yw cais gwrthrych am wybodaeth. Dylid anfon unrhyw geisiadau o'r fath at Dîm Llywodraethu'r Cyngor a gellir gwneud hynny drwy'r wefan (<http://www.flintshire.gov.uk/en/Resident/Data-Protection-and-Freedom-of-Information/Data-Protection.aspx>)

Cyfyngu Mynediad i Ddata Personél

Mae'n bosibl y byddwn yn rhoi rhan neu'n holl ffeiliau ar rwydweithiau cyfrifiadurol diogel ac yn cyfyngu mynediad i ddata personél. Pan weithredir hyn, caniateir mynediad i ddata am staff unigol yn unig i'r defnyddwyr data canlynol ac i ddibenion penodol a chyfreithlon yn unig:

- Staff a gyflogir yn yr Adran Adnoddau Dynol (yn cynnwys Cyflogau);
- Pennaeth Adran/rheolwr gweithredol/llynell aelod o staff;
- Staff a gyflogir yn adran Pensiynau'r Adran Gyllid;
- Unrhyw drydydd parti penodol ar gontract (sy'n gweithredu o dan gyfarwyddyd y Rheolydd Data, neu ei gynrychiolydd ef/hi) a ddefnyddir i brosesu data corfforaethol mewnol – gan ddarparu cyfleusterau prosesu diogel a mynediad i ddata'n unol â darpariaethau statudol a gofynion y Cyngor Sir.

Cadw

Dylid cadw ffurflenni cais, cofnodion cyfweiliad a geirdaon ar gyfer ymgeiswyr mewnol ac allanol aflwyddiannus am gyfnod o chwe mis ar ôl y cyfweiliad. Er mwyn eu cadw y tu hwnt i'r cyfnod hwn byddai'n rhaid dangos bod angen busnes clir gan y Cyngor a bod yr unigolyn wedi cydsynio. Mae hyn yn berthnasol i bob ffeil llaw yn cynnwys unrhyw nodiadau a wnaed gan unrhyw un mewn cyfweiliadau yn ogystal â ffeiliau cyfrifiadurol.

Mae nifer o isafswm cyfnodau cadw statudol sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith o fewn Cymru a Lloegr. Mae'r cyfnodau cadw penodol ar gyfer yr holl gofnodion yn ymwneud â staff wedi eu cynnwys yn Amserlen Gadw Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol a gellir gweld copi ar dudalennau cyflogaeth yr Infonet.

Yr Hawl i Wrthwynebu

Mae hawl gan staff, ar unrhyw amser, trwy rybudd ysgrifenedig i'r Cyngor, i ofyn i ni roi'r gorau, o fewn amser rhesymol, i brosesu unrhyw ddata personol oherwydd ei fod yn achosi, neu'n debygol o achosi, difrod neu drallod sylweddol iddynt eu hunain neu unigolyn arall. Rhaid datgan a manylu'n glir ar y pryd y rhesymau am y cais hwn. Byddwn ni, fel Rheolydd Data, yn ymateb o fewn ugain diwrnod gan ddweud p'un ai a yw'n bwriadu neu wedi cydymffurfio â'r rhesymau pam na ellir cyfiawnhau'r rhybudd a'r graddau y mae'n bwriadu cydymffurfio (os o gwbl).